Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

| Enw Polisi | Polisi Ffioedd a Gostyngiadau |
| --- | --- |
| Dyddiad Cymeradwyo | Awst 2025 |
| Dyddiad Nesaf Adolygu | Medi 2026 |
| Llofnod Prif Weithredwr | |

Cymraeg Dysgu Learn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**GOSTYNGIADAU**

Dim ond y strwythur gostyngiadau a nodwyd yn y ddogfen hon (isod) fydd ar gael i ddarparwyr eu gweithredu. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol o gasglu tystiolaeth bydd gofyn i ddysgwyr dystio bod yr wybodaeth yn gywir - gall darparwr ofyn am dystiolaeth, ac os nad yw hynny'n cael ei gyflawni, ni fydd modd gwarantu'r gostyngiad. Nid oes modd cyfuno gostyngiadau, h.y. os bydd cwrs yn cael ei gynnig hanner pris gan y darparwr, ni fydd unrhyw ostyngiadau pellach e.e. defnyddio gostyngiad Cyw Cynnar a Dysgwyr newydd.

| Enw'r gostyngiad | Diffiniad | Pwy sy'n gymwys | Y Gostyngiad | Prawf |
|---|---|---|---|---|
| Cyw Cynnar | Dysgwyr sy'n ymrestru a thalu o fewn terfyn amser penodol | Pob dysgwr | 50% | |
| Dychwelwyr | Dysgwyr sy'n dychwelyd i ddysgu am yr ail flwyddyn, sy'n ymrestru a thalu o fewn cyfnod amser penodol.<br>Os oes bwlch o fwy na blwyddyn yn y dysgu, nid yw'r dysgwr yn gymwys. | Pob dysgwr | 50% | Bydd modd i ddarparwyr adnabod dychwelwyr o ddata'r Safle Rhyngweithiol. |
| Dysgwyr Newydd | Dysgwyr sydd yn cofrestru o fewn cyfnod amser penodol | Pob dysgwr | 50% | Bydd modd i ddarparwyr adnabod y dysgwyr o ddata'r Safle Rhyngweithiol. |
| Dysgwyr Newydd lefel Mynediad 1 a 2 | Dysgwyr sydd yn cofrestru o fewn cyfnod amser penodol | Pob dysgwr | 50% | Bydd modd i ddarparwyr adnabod y dysgwyr o ddata'r Safle Rhyngweithiol. |
| Myfyrwyr dros 26 oed | Yn astudio cwrs hyfforddi (yn ychwanegol at y cwrs Cymraeg i Oedolion) gyda Choleg neu Brifysgol. | Dysgwyr sydd yn gallu profi eu bod yn fyfyrwyr | 50% | Cerdyn NUS neu gerdyn adnabod y Coleg/Prifysgol |
| Ar fudd-daliadau | Yn hawlio'r budd-daliadau canlynol:<br>-Credyd Cynhwysol<br>-Cymhorthdal Incwm<br>-Budd-dal tai<br>-Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm<br>-Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm<br>-Credyd Treth Gwaith<br>-Credyd Treth Plant<br>-Credydau Pensiwn | Dysgwyr sydd yn gallu profi eu bod yn derbyn budd-daliadau. | 100% | Dogfennau budd-daliadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | -Taliad Annibyniaeth Personol<br>-Grant Hanfodion Ysgol | | | |
| Ceiswyr Lloches | Cynllun i sicrhau bod ceiswyr lloches yn gallu dysgu Cymraeg. | Ceiswyr lloches nad oes ganddynt hawl i weithio yn y DU ond y mae ganddynt hawl i astudio | 100% | Cerdyn Cofrestru Ceiswyr Lloches (Asylum Registration Card (ARC)) |
| Dysgwyr *16-25<br>*os yw'r sefydliad yn caniatáu dysgwyr iau na 18. | Pobl rhwng 16 a 25 oed o Fedi 2024 ymlaen. | Unrhyw un sydd heb gyrraedd eu pen-blwydd yn 26 oed ar ddiwrnod dechrau'r cwrs | 100% | Bydd modd i'r system adnabod o ddyddiad geni nad oes angen gofyn am ffi wrth gofrestru. |
| Gweithlu Addysg | Cynllun i annog y rheiny sy'n gweithio yn y sector Addysg i ddysgu Cymraeg | -Athrawon cymwys mewn swydd neu sy'n chwilio am swydd<br>-Athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n chwilio am swydd<br>-Athrawon/ cynorthwywyr cyflenwi<br>-Unigolion sy'n hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn athro cymwys<br>-Cynorthwywyr Dysgu sydd mewn cyflogaeth<br>-Arweinyddion<br>-Athrawon ymgynghorol | 100% | Dan reolaeth y darparwr – bydd modd gofyn am brawf addas, e.e. prawf o gofrestru ar gwrs neu rif cofrestru gyda CGA. |
| Cynigion arbennig | Cynllun i ddarparwyr ei ddefnyddio i hybu cyrsiau penodol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. | Pob dysgwr | Hyd at 100% | Dan reolaeth y darparwr |

**FFIOEDD**

Bydd darparwyr yn codi ffi o £100 ar gyfer cyrsiau ar bob lefel o fewn y brif ffrwd (cod rhaglen 8001:8005). Mae hyn ar sail cynnig teg a chyson ym mhob rhan o Gymru i ddysgwyr. Gall darparwyr ddefnyddio'r gostyngiad 'Cynigion arbennig' ar gyfer hyrwyddo rhai cyrsiau sydd angen pris is e.e. Cymraeg yn y Cartref ayb.

Bydd darparwyr yn cynnig pob cwrs blasu am ddim. Diffinnir cwrs blasu fel rheiny o fewn y cod rhaglen 8007 sydd hyd at 10 awr.

**Ad-daliadau**

Argymhellir bod darparwyr yn dilyn y strwythur ad-daliadau isod os nad yw dysgwyr yn parhau i ddysgu hyd at ddiwedd y cwrs (ar gyfer prif ffrwd yn unig). Bydd esboniad yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr am y polisi ad-daliad wrth gofrestru:

- Os nad yw dysgwr yn ymddangos yn y wers gyntaf, neu'n tynnu yn ôl o'r cwrs cyn iddo ddechrau, gellir ad-dalu 80% o'r ffi.
- Os nad yw dysgwr yn parhau i ddysgu o fewn y 4 wythnos gychwynnol, gellir ad-dalu 50% o'r ffi.
- Os yw dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau wedi'r 4 wythnos gyntaf, ni chynigir ad-daliad.

Argymhellir bod darparwyr hefyd yn defnyddio eu disgresiwn arferol wrth ymdrin ag achosion anarferol neu eithriadol.

**Gwiriad ar hap**

Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol, awgrymir gwirio dogfennau sy'n caniatáu cyrsiau am ostyngiad sylweddol neu am ddim, ar hap.